*YNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Llun, 23ain Ionawr, 2023 am 4.00 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385406118)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol 12pm am Dydd Gwener, 20 Ionawr 2023. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:
1. Mae gofyn i aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a 12 Rhagfyr 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 14)**

**3. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN LLYWODRAETH Y DU: GRANT CYMUNEDOL RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned a Chyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhannu manylion cynnig i sefydlu a chynnal Grant Cymunedol ar gyfer Rhondda Cynon Taf, gan ddefnyddio'r dyraniad gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

**(Tudalennau 15 - 24)**

**4. STRATEGAETH ADNODDAU DYNOL A CHYNLLUN GWEITHLU'R CYNGOR 2023-2028**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n galluogi'r Cabinet i drafod, adolygu a chymeradwyo Strategaeth Adnoddau Dynol 2023-28 a Chynllun Gweithlu'r Cyngor 2023-28.

**(Tudalennau 25 - 62)**

**5. GWASANAETHAU GWASTRAFF - STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF DDIWYGIEDIG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei gynnal am gyfnod o 5 wythnos rhwng Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023. Roedd yr ymgynghoriad yma'n ymwneud â'r diwygiadau arfaethedig i drefniadau rheoli gwastraff gweithredol y Cyngor o ran trefniadau casglu gwastraff a gwastraff ailgylchu yn y dyfodol. Bwriad hyn yw cynyddu'r gyfradd ailgylchu ledled RhCT, gan gynnig effeithlonrwydd ariannol ac helpu'r Cabinet i wneud penderfyniad ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

**(Tudalennau 63 - 166)**

**6. ADOLYGIAD GWASANAETH O'R GWASANAETH PRYDAU YN Y GYMUNED**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei gynnal rhwng Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023 mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig i Wasanaeth Prydau yn y Gymuned y Cyngor.

**(Tudalennau 167 - 252)**

**7. MEITHRINFEYDD SY'N CAEL EU CYNNAL GAN Y CYNGOR - TREFNIADAU DARPARU GWASANAETH DIWYGIEDIG**

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau i Blant, sy'n rhannu manylion y trefniadau cyfredol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant mewn meithrinfeydd sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor. Mae'r adroddiad hefyd yn pennu opsiynau darparu gwasanaeth diwygiedig i'w hystyried er mwyn gwella'r cynnig gofal plant sydd ar gael yn lleol i deuluoedd, mae hyn wedi'i lywio gan waith profi'r farchnad.

**(Tudalennau 253 - 314)**

**8.** **POLISI FFIOEDD A THALIADAU'R CYNGOR 2023-2024**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, sy'n cyflwyno adolygiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24, (gyda phob newid yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl wedi hynny).

**(Tudalennau 315 - 330)**

**9.** **CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2023-2024**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am setliad llywodraeth leol 2023/24 a chanlyniadau cam 1 o ymgynghoriad y gyllideb, i gynorthwyo gyda'i drafodaethau wrth lunio'r strategaeth cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, y bydd yn ei hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

**(Tudalennau 331 - 416)**

**10.** **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



<u>**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**</u>

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Paul Mee – Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol